CYP(3)-14-10 Paper 7

# YSGOL ARDUDWY

## HARLECH

**Tystiolaeth i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

**Datrys Problemau Trafnidiaeth Mewn Ardal Wledig wrth Deithio i'r Ysgol a Sicrhau Mynediad Llawn i Weithgareddau'r Ysgol.**

Mae nifer fawr o ddisgyblion Ysgol Ardudwy'n teithio i'r ysgol ar y trên. O gyfeiriad Penrhyndeudraeth mae'r trên yn gwbl allweddol gan nad yw bysiau llawn eu maint na bysiau bach yn gallu defnyddio'r ffordd dros Bont y Briwet oherwydd cyfyngder pwysau ar y bont. Mae'r daith ar hyd y ffordd yn golygu dargyfeiriad trwy Faentwrog ac mae 'r ffordd honno'n gul a throellog rhwng Maentwrog a Llandecwyn ac yn aml mae oedi oherwydd nad yw dau fws/lori'n gallu mynd heibio'i gilydd. Byddai'r daith yma'n ychwanegu tua hanner awr at daith y disgyblion I'r ysgol.

Yn draddodiadol roedd pob disgybl yn defnyddio'r trên i ddod i'r ysgol o'r holl bentrefi o'r ddau gyfeiriad o'r Bermo ac o Finffordd. Bellach, fodd bynnag, cyfyngir y cerbydau i ddau ar bob trên ac nid oes digon o le i bawb ac felly defnyddir tri bws yn ogystal â'r trenau – disgyblion yn teithio o'r Bermo, Penrhyndeudraeth a Minffordd yn unig sydd yn defnyddio'r trên gyda rhai o Groesor a Llanfrothen yn cael bws i ddal y trên ym Mhenrhyndeudraeth.

Mae'r defnydd gan y disgyblion ysgol o'r trên wedi bod yn bwysig iawn i'r rheilffordd dros y blynyddoedd – yn wir mae llawer o'r farn na fyddai Lein y Cambrian wedi goroesi toriadau Beeching yn y chwedegau onibai am y disgyblion ysgol a'r problemau i'w cludo trwy Faentwrog pe byddai'r lein yn cau.

Nid yw'r defnydd o drenau wedi bod heb eu trafferthion fodd bynnag, a dros y blynyddoedd mae problemau difrifol wedi bod gyda trenau'r prynhawn, gyda'r trenau'n rheolaidd hanner awr neu awr yn hwyr. Yn ogystal roedd trafnidiaeth mor ddrwg yn yr ardal roedd yn gwneud cynnig gweithgareddau ôl ysgol yn anodd dros ben gan nad oedd modd i'r disgyblion gyrraedd adref wedyn. Roedd hyn yn cyfyngu ar yr hyn yr oedd yr ysgol yn gallu darparu fel gweithgareddau allgyrsiol. Dechreuwyd talu am fws ar ddau ddiwrnod yr wythnos i gludo plant adref i Benrhyndeudraeth ar ôl y gweithgareddau ôl ysgol ond roedd y gost o £80 y dydd yn fawr i ysgol wledig weddol fach, ond roedd yn galluogi rhai disgyblion i aros, ond roedd y daith adref yn hir ac weithiau roedd oedi i'r bws wrth deithio ar hyd ffordd gul Maentwrog.

Dros y blynyddoedd cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda'r cwmniau trenau a oedd yn gyfrifol am y lein i geisio datrys a gwella'r problemau ond erbyn 2005 roedd y sefyllfa wedi gwaethygu cymaint roedd y trenau'n hwyr bron yn ddyddiol. Ar ôl ennill masnachfraint Cymru cynhaliwyd cyfarfodydd gyda

Cwmni Trenau Arriva ac am y tro cyntaf cyfaddefodd y Cwmni nad oedd yr amseroedd adeg honno'n gynaladwy i anghenion yr ysgol na'r cyhoedd.

Roedd y syniad o newid oriau agor a chau'r ysgol ychydig er mwyn gweld a fyddai hyn yn gallu sicrhau amseroedd gwell i'r trenau wedi'i grybwyll o'r blaen ond bob tro nid oedd y cwmnioedd cyn Arriva'n fodlon ystryied hyn o ddifrif. Fodd bynnag roedd agwedd Cwmni Arriva'n wahanol ac aethpwyd ati i edrych o ddifrif ar y sefyllfa ar y cyd. Llwyddwyd i ddod i gyfaddawd a fyddai'n sicrhau bod y Cwmni Trenau ac Ysgol Ardudwy'n elwa fel ei gilydd.

O ran Arriva byddai gwasanaeth rheolaidd bob dwy awr ar hyd Lein y Cambrian a byddai'r trenau'n cysylltu'n dda gyda lein Aberystwyth i Amwythig i sicrhau cysylltiadau effeithiol bob tro; cyn hyn roedd aros yn aml am awr ym Machynlleth yn gyffredin. Roedd hefyd yn gwella'r gwasanaeth i Goleg Meirion-Dwyfor ym Mhwllheli yn y bore gan fod y myfyrwyr yn cyrraedd yn hwyr oherwydd yr angen i'r trên wasanaethu Harlech am 08.50.

Roedd yn rhaid i Ysgol Ardudwy newid ei horiau i 08.15 – 14.20 a lleihau'r awr ginio i 35 munud, ond wrth wneud hyn mae'n bosib i'r ddau drên o'r ddau gyfeiriad gyrraedd am 08.10 a gadael am 14.30, gyda'r trên i gyfeiriad y Gogledd yn cyrraedd Harlech am 14.10 ac yn aros am y disgyblion. Mae rhoi'r 20 munud yn yr amserlen yn sicrhau amser i'w adennill os bydd y trên yn digwydd bod yn hwyr. Yn ychwanegol mae'r ffaith bod trenau eraill i'r ddau gyfeiriad am 16.15 yn sicrhau bod modd cynnal gweithgareddau allgyrsiol ar ôl yr ysgol. Cytunodd Cwmni Arriva hefyd i'r disgyblion sydd yn byw yn y pentrefi sydd yn cael eu gwasanaethu gan fysiau ddefnyddio eu tocynnau bws ar y trên i ddychwelyd adref gan nad oes bysiau cyfleus yr adeg honno o'r dydd. Mae'r ysgol yn rhedeg tacsi ar gais bob prynhawn i gyfarfod yr ail drên o Benrhyndeudraeth i Lanfrothen a Chroesor er mwyn sicrhau bod pawb o bob ardal yn gallu cyrraedd adref yn ddiogel a di-drafferth

Ers i'r amseroedd newydd dod i rym o Fedi 2006 mae wedi gweddnewid yr ysgol o ran ei threfniadau trafnidiaeth – ni ellir gwella ar yr amseroedd na'r dibynadwyedd – dim ond dwywaith yn y pedair blynedd diwethaf rwyf yn gallu cofio'r trenau yn hwyr a'r adegau hynny roedd oherwydd damwain a thywydd gwael.

Mae'r trefniadau newydd hefyd wedi gweddnewid y cyfleoedd rydym yn gallu cynnig i'n disgyblion. Rydym bellach yn gallu cynnal rhaglen lawer ehangach o weithgareddau nag o'r blaen a hynny ar bedair noson yr wythnos. Mae'r niferoedd o ddisgyblion sydd yn aros wedi cynyddu'n arwyddocaol oherwydd yr hwylustod trafnidiaeth. Ym mis Tachwedd bydd yr Ysgol yn llwyfannu'r sioe gerdd 'We Will Rock You,' yn Theatr Harlech ac mae dros 80 o ddisgyblion yn y cast – o'r blaen ni fyddai hanner cymaint wedi aros noson ar ôl noson ar gyfer yr ymarferion ond mae'n bosib erbyn hyn cyrraedd adref i bob rhan o'r dalgylch yn gyflym ac yn hwylus.

Llwyddwyd i ddenu grant 'Ysgolion Bro' o'r Cynulliad i ehangu ymhellach ar y ddarpariaeth. Mae Clwb Gwaith Cartref bob nos ac mae Canolfan Adnoddau'r Ysgol gyda chyfleusterau cyfrifiadurol ar gael i ddisgyblion y teuluoedd hynny

nad ydynt yn berchen ar gyfrifiadur gartref. Mae 16 o glybiau/chwaraeon eraill yn cael eu cynnal dros y pedair noson a rhoddir sylw arbennig i feysydd datblygol pwysig a strategaethau blaenoriaethau cyfoes Llywodraeth y Cynulliad megis Ffitrwydd ac Iechyd, Entrepreneuriaeth, dysgu iaith fodern ychwanegol a Pheirianyddiaeth ynghyd â meysydd i ddatblygu talentau'r rhai galluog fel Clwb Theatr a Chelf.

Trwy allu cynnig y rhaglen hon a thrafnidiaeth bwrpasol mae Ysgol Ardudwy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Yn aml yn y gorffennol dim ond y disgyblion a oedd o deuloedd gyda char i ddod i'w nôl oedd yn medru elwa o'r cyfleusterau a'r gweithgareddau hyn, ac wrth reswm y teuluoedd tlawd oedd y rhai oedd heb gyfleusterau cyfrifiadurol gartref ac yn methu fforddio anfon eu plant i weithgareddau fin nos,.

Elwodd y Cwmni Rheilffordd a'r ardal yn sicr hefyd o'r gwasanaeth trên newydd ac mae'r niferoedd sydd yn defnyddio'r lein wedi codi fel canlyniad sydd gobeithio yn sicrhau ei dyfodol hefyd.

Ni fyddai hyn oll yn bosib heb y cydweithio ardderchog rhyngom â Chwmni Trenau Arriva Cymru ac yn arbennig Ben Davies, Rheolwr Gogledd Cymru ar y pryd a hefyd swyddogion Adran Addysg Cyngor Gwynedd oedd yn gefnogol iawn hefyd yn y trafodaethau gyda'r Cwmni. Mae'n siwr bod hyn yn rhywbeth arloesol gyda Chwmni Preifat yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r sector cyhoeddus ym maes trafnidiaeth, ond mae'r budd i ni a'r ardal wedi bod yn amhrisiadwy.

Tudur Williams
Prifathro 19 Hydref 2010